Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Deddf Adnoddau Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Dŵr 2003)

Hysbysiad o gais am drwydded i dynnu dŵr, trwydded i rwystro neu arafu llif dŵr mewndirol drwy waith cronni a thrwydded lawn i dynnu dŵr

Hysbysir trwy hyn, yn unol ag Adran 37 Deddf Adnoddau Dŵr 1991 a Rheoliad 6 Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Tynnu a Chronni Dŵr) 2006 i gais gael ei wneud i Cyfoeth Naturiol Cymru gan Huw Roberts am drwydded lawn i dynnu dŵr o isafon ddienw Llyn Tegid yn Fferm Gyrn, Llanuwchllyn, Bala, Gwynedd yng Nghyfeirnod Grid Cenedlaethol SH 89452 29729.

Y cynnig yw tynnu dŵr yn ôl y cyfraddau a'r cyfnodau canlynol:
3,905.3 metr ciwbig y dydd a
1,425,427 metr ciwbig y flwyddyn.

Bydd y dŵr yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cynhyrchu pŵer trydan dŵr. Bydd yr holl ddŵr sy'n cael ei dynnu yn dychwelyd i isafon ddienw Llyn Tegid yng Nghyfeirnod Grid Cenedlaethol SH 88680 30288.

Gwneir cais hefyd am drwydded i rwystro neu arafu llif isafon ddienw Llyn Tegid yn Fferm Gyrn, Llanuwchllyn, Bala, Gwynedd yng Nghyfeirnod Grid Cenedlaethol SH 89452 29729. Diben y gwaith cronni dŵr drwy'r gwaith yw adeiladu gored newydd i reoli'r gwaith tynnu dŵr.

Gellir anfon copi o'r ceisiadau, mapiau, cynlluniau ac unrhyw ddogfennau eraill a gyflwynwyd yn rhad ac am ddim drwy e-bost neu drwy'r post drwy gysylltu â permittingconsultations@naturalresourceswales.gov.uk.

Mae'n rhaid i unrhyw berson sydd am wneud sylwadau ynghylch y ceisiadau wneud hynny yn ysgrifenedig, gan ddyfynnu enw'r ceisydd a'r Cyfeirnod WPCC4331 a WPCC4332 i Dîm Trwyddedu Adnoddau Dwr, Y Ganolfan Drwyddedu (Caerdydd) Cyfoeth Naturiol Cymru, Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0TP neu drwy anfon e-bost i permittingconsultations@naturalresourceswales.gov.uk erbyn 24 Mawrth 2016 fan bellaf.

Am gyngor pellach ar wneud sylwadau, mae taflen - 'Gwneud i'ch barn gyfrif' ar gael am ddim ar gais gan swyddfeydd lleol Cyfoeth Naturiol Cymru. Gellir gwneud unrhyw ymholiadau cyffredinol ynghylch yr hysbysiad hwn drwy ffonio 0300 065 3000.

Llofnodwyd: Anwen Davies
Ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru
Dyddiad: 25 Chwefror 2016

Water Resources Act 1991 (as amended by the Water Act 2003)

Notice of application for a full licence to abstract water and for a licence to obstruct or impede the flow of an inland water by means of impounding works

Notice is hereby given, in accordance with Section 37 of the Water Resources Act 1991 and Regulation 6 of the Water Resources (Abstraction and Impounding) Regulations 2006 that an application has been made to Natural Resources Wales by Huw Roberts for a full licence to abstract water from the un-named tributary of Llyn Tegid at Gyrn farm, Llanuwchllyn, Bala, Gwynedd at National Grid Reference SH 89452 29729.

The proposal is to abstract water at the following rates and periods:
3,905.3 cubic metres a day and
1,425,427 cubic metres a year.

The water will be used for hydroelectric power generation. All abstracted water will be returned to the un-named tributary of Llyn Tegid at National Grid Reference SH 88680 30288.

An application is also being made for a licence to obstruct or impede the flow of the un-named tributary of Llyn Tegid at Gyrn farm, Llanuwchllyn, Bala, Gwynedd at National Grid Reference SH 89452 29729. The object of impounding water by means of the works is to build a new weir to control the abstraction.

A copy of the applications, maps, plans and any other submitted documents can be sent free of charge via email or post by contacting permittingconsultations@naturalresourceswales.gov.uk.

Any person who wishes to make representations about the applications must do so in writing, quoting the name of the applicant and Reference Number WPCC4331 & WPCC4332 to the Water Resources Permitting Team, Permitting Centre (Cardiff) at Natural Resources Wales, Ty Cambria, 29 Newport Road, Cardiff, CF24 0TP or by email to permittingconsultations@naturalresourceswales.gov.uk by no later than 24 March 2016.

For further advice about making a representation, a leaflet - 'Making your views count' is available free of charge on request from local Natural Resources Wales offices. Any general enquiries about this notice can be made by telephoning 0300 065 3000.

Signed: Anwen Davies
On behalf of Natural Resources Wales
Date: 25 February 2016